# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N. Wood; a M. Evans (Aelod Lleyg)

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**).**

125 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

126 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2024 fel cofnod cywir.

127 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

128 DEFNYDDIO GWYBODAETH PERFFORMIAD: SAFBWYNT DEFNYDDWYR GWASANAETH A CHANLYNIADAU – CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 22 Mai 2024.

Fel rhan o raglen waith archwilio flynyddol y Cyngor ar gyfer 2023, cynhaliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adolygiad o Ddefnydd y Cyngor o Wybodaeth am Berfformiad: Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau a Chanlyniadau.

Diben yr adolygiad oedd helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd yr

adolygiad hwn wedi'i gynnal ar draws holl awdurdodau Cymru gyda ffocws ar geisio sicrwydd bod y wybodaeth am berfformiad yr oedd y Cyngor yn ei rhoi i uwch swyddogion ac Aelodau Etholedig yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniad ei weithgareddau; bod y wybodaeth hon yn rhan o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ac wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac i nodi cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad (sydd ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad) fel a ganlyn:

- Rhoddodd y wybodaeth am berfformiad y Cyngor ddealltwriaeth gyfyngedig i uwch arweinwyr o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor;
- Rhoddodd y wybodaeth am berfformiad a oedd yn cael ei rhoi i uwch arweinwyr rywfaint o fewnwelediad o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, ond nid oedd hyn yn gyson ar draws yr holl wasanaethau;
- Nid oedd y wybodaeth am berfformiad a oedd yn cael ei rhoi i uwch arweinwyr yn eu galluogi i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o ganlyniadau gweithredoedd y Cyngor.

Roedd gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau bod ei wybodaeth am berfformiad yn gywir.

Gan fod y wybodaeth a oedd yn cael ei rhoi am ganlyniadau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau'n gyfyngedig, roedd y graddau y gallai'r Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau hefyd yn gyfyngedig.

Roedd y Cyngor wedi nodi bod angen iddo ymgysylltu'n fwy â defnyddwyr gwasanaethau ond nad oedd wedi penderfynu sut y byddai hyn yn llywio'r wybodaeth a oedd yn cael ei rhoi i uwch arweinwyr i sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol.

Gwnaed dau argymhelliad i gryfhau dull gweithredu'r Cyngor.

- A1: Gwybodaeth am safbwynt defnyddiwr y gwasanaeth – Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth.
- A2: Gwybodaeth am ganlyniadau – Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'i ganlyniadau arfaethedig.

Mewn ymateb i'r argymhellion, roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol wedi datblygu cynllun gweithredu a fyddai'n cael ei ddatblygu gan y Cyngor. Roedd hyn yn Atodiad B yr adroddiad.

Yn unol â threfniadau monitro perfformiad y Cyngor, byddai'r cynnydd yn erbyn meysydd gwella rheoleiddiol yn cael ei fonitro drwy Draciwr Mewnwelediad y

Bwrdd Mewnwelediad Strategol. Byddai pob Pwyllgor Craffu yn parhau i gael gwybod am gynnydd yn erbyn ein meysydd gwella rheoleiddiol trwy drefniadau monitro perfformiad chwarterol. Byddai hyn yn cael ei ategu gan adolygiad bob 6 mis a blynyddol o gynnydd rheoleiddiol, a fyddai'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet ar gyfer trosolwg terfynol. Byddai'r cynnydd hefyd yn cael ei fonitro gan Archwilio Cymru fel rhan o raglen waith archwilio flynyddol y Cyngor.

Dywedodd Mr N. Ireland (Aelod Lleyg) ei bod yn dda gweld y Cyngor yn edrych ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau, a gofynnodd a fyddai cefnogaeth neu hyfforddiant parhaus ar gael i staff ynghylch hynny. Gofynnodd Mr Ireland hefyd a fyddai gwiriadau annibynnol yn cael eu cynnal yn barhaus gan asesu a oedd argymhellion wedi'u cyflawni. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, o ran newid camau gweithredu o allbynnau i ganlyniadau, fod hynny'n ffordd wahanol o feddwl i staff a bod y Cyngor yn ddiolchgar i swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a oedd wedi rhoi llawer o gefnogaeth o ran y broses. Roedd y Comisiynydd hefyd wedi cyflwyno sesiwn hyfforddi ddefnyddiol ynghylch sut y dylai'r fframwaith edrych. Rhan gyntaf y broses oedd ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys y cyhoedd ac Aelodau Etholedig i nodi'r prif amcanion ac ystyried beth ddylai'r canlyniadau i ddinasyddion fod. Byddai angen i'r Cyngor hefyd ystyried sut y byddai'r amcanion a'r canlyniadau'n cael eu monitro, ac felly, byddai hyfforddiant a chefnogaeth i Aelodau Etholedig yn ogystal ag aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper fod un o'r materion yr oedd angen ei ystyried ymhellach wedi'i amlygu drwy'r Arolwg Beth Am Siarad a rhai o'r problemau canfyddedig gyda'r Cyngor a godwyd gan drigolion. Dywedodd y Cynghorydd Hooper fod angen i'r Cyngor, o ran ymgysylltu â'r cyhoedd, gynnal dadansoddiad a mewnwelediadau manylach o ymatebion y cyhoedd fel y gallai ddeall a chefnogi'r materion sy'n cael eu codi yn well, yn enwedig wrth i gyllidebau fynd yn dynnach. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr mai'r Arolwg Beth Am Siarad oedd y darn cyntaf o ymgysylltu â thrigolion ynghylch eu materion a'u canfyddiadau o wasanaethau'r Cyngor. Roedd hynny'n rhywbeth yr oedd y Cyngor yn ei gymryd o ddifrif ac roedd yn cael ei ystyried gan amrywiaeth o Bwyllgorau a fforymau. Enghraifft o hynny oedd Prosiect Sero a sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch hynny’n cael eu lledaenu drwy'r sefydliad cyfan. Felly, diben yr Arolwg Beth Am Siarad oedd rhannu gwybodaeth drwy gymaint o’r Cyngor â phosibl. Yn ogystal, roedd y gwaith Creu Lleoedd a’r gwaith drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd yn galluogi’r Cyngor i ddeall profiadau a chanfyddiadau gwahanol drigolion ac i ymateb pan fo hynny'n briodol.

Cytunodd y Cynghorydd J. Protheroe â'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Hooper, a nododd fod y cwestiynau a ofynnwyd i drigolion fel arfer yn arsylwadol ac nad oeddent yn galluogi archwiliad dyfnach. Felly, byddai mwy o waith mewnwelediad yn cael ei groesawu.

Dywedodd Mr G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg) fod llawer o wybodaeth mewn adroddiadau a gyflwynwyd i bwyllgorau ac nid y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unig, fel yr adroddiad Cwynion a'r adroddiad Hamdden a oedd yn cynnwys cryn dipyn o ddata ar berfformiad a data nad oedd ar berfformiad. Yn

ogystal, roedd cwynion i Gynghorwyr gan drigolion nad oeddent wedi'u cofnodi'n llawn, ac a oedd yn cynnwys llawer o wybodaeth. Dywedodd y Cadeirydd hefyd ei fod yn cytuno gyda'r Cynghorydd Hooper ac roedd pa mor agored yr oedd y Cyngor a pha mor dda yr oedd y Cyngor yn gwybod ei hun yn bwynt allweddol i ddeall y materion a oedd yn cael eu codi gan drigolion. Byddai'r Pwyllgorau Craffu yn gallu cynorthwyo'r Cyngor i nodi meysydd i'w gwella, yn enwedig mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol bresennol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr mai pa mor dda yr oedd y Cyngor yn gwybod ei hun oedd y prif reswm dros gynnal yr Arolwg Beth Am Siarad. O hynny, roedd y Cyngor yn ystyried yr adborth ar draws yr ystod gyfan o gwestiynau yr oedd y bobl wedi'i fwydo'n ôl. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod adran meysydd i'w gwella neu bryderon wedi'i chynnwys yn ddiweddar o fewn yr adroddiadau perfformiad i'r Pwyllgorau Craffu. Roedd hynny'n golygu bod mecanwaith i dynnu sylw at faterion gyda'r Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn fod Cyngor Bro Morgannwg yn sefydliad mawr iawn ac roedd adrannau oedd angen cymorth o ran gwerthuso perfformiad ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Felly, roedd angen i'r Cyngor adlewyrchu sut yr oedd adrannau penodol yn ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau eu bod i gyd o'r un safon a'r un lefel. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod wedi cael ei gydnabod bod gwahanol ddulliau mewn gwahanol rannau o'r Cyngor, ac roedd bellach yn bwysig myfyrio ar yr hyn yr oedd trigolion wedi'i ddweud wrth y Cyngor. Roedd hefyd yn bwysig ail-fframio'r ffordd yr oedd y Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion, yn enwedig gan fod pwysau cyllidebol sylweddol a oedd yn effeithio ar wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y canfyddiadau sy'n deillio o'r Adolygiad o Ddefnydd y Cyngor o Wybodaeth am Berfformiad: Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau a Chanlyniadau (sydd yn Atodiad A yr adroddiad) a'r ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad ac argymhellion Archwilio Cymru (sydd yn Atodiad B yr adroddiad) yn cael eu nodi.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael eu cyfeirio at y Cabinet. Y sylwadau'n ymwneud â'r canlynol:

- O ran ymgysylltu â'r cyhoedd, i'r Cyngor gael dealltwriaeth fanylach o'r ymatebion a gafwyd er mwyn deall yn well y materion a oedd yn cael eu codi gan drigolion.
- I'r Cyngor ystyried dod â gwybodaeth ynghyd o adroddiadau eraill a gweithgareddau'r Cyngor fel Cwynion Corfforaethol a chwynion i Gynghorwyr a oedd yn ffynhonnell wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol er mwyn deall barn a phrofiadau trigolion.
- I'r Pwyllgorau Craffu gael mwy o rôl o ran nodi ffyrdd o wella perfformiad a gwasanaethau'r Cyngor.

- I'r Cyngor fyfyrio ar sut mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn cael eu cynnal gan bob adran unigol y Cyngor i sicrhau'r un safonau a lefelau o ymgysylltu.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Hysbysu'r Cabinet am safbwyntiau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

129 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAD PERFFORMIAD Y PANEL A CHALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024.

Cyflwynodd yr adroddiad Galendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2024/25 a oedd yn amlinellu'r gweithgareddau a fyddai'n cael eu hystyried gan yr Aelodau drwy gydol y flwyddyn. Amlinellodd yr adroddiad hefyd gynnig i ymgysylltu ag Aelodau Etholedig wrth lunio'r prosesau, y cynlluniau a'r adroddiadau allweddol a oedd yn cyd-fynd â'r Calendr Perfformiad Blynyddol er mwyn gallu bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf LIE) a chyfrannu at nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD).

Eleni roedd dwy agwedd ychwanegol ar y Calendr Perfformiad yr oedd angen eu hystyried - datblygu Cynllun Corfforaethol newydd a'r trefniadau ar gyfer cynnal Asesiad Perfformiad Panel (APP).

Nododd yr adroddiad y dull a oedd yn cael ei weithredu i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol pum mlynedd newydd ar gyfer 2025-2030 a fyddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2025. Byddai gwaith ar Gynllun Corfforaethol newydd yn cynnwys datblygu Amcanion Lles newydd a dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.

Nododd yr adroddiad y cwmpas a'r amserlen ddangosol ar gyfer cynnal APP y Cyngor yn hydref 2024. Wedi'i gyflwyno gan y Ddeddf LIE, diben yr APP oedd darparu her allanol annibynnol i helpu i lywio taith wella'r Cyngor drwy adeiladu ar ei hunanasesiad blynyddol ei hun. Byddai'r APP yn asesu i ba raddau yr oedd y Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad (hynny yw, arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol ac arfer llywodraethu da) ac roedd hefyd yn gyfle i ystyried gwaith a oedd yn cael ei wneud fel rhan o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2025-30. Cynigiwyd y dylai'r APP ganolbwyntio ar y newidiadau a oedd yn cael eu gwneud a'r dull a oedd yn cael ei weithredu i gyflawni'r hyn yr oedd ei angen i sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a'r dyfodol ac i wella gwydnwch y sefydliad.

Roedd y canfyddiadau allweddol a'r dysgu o’r adolygiad o ddull Hunanasesiad Blynyddol y flwyddyn flaenorol hefyd wedi’u nodi yn yr adroddiad yn ogystal â chynigion i wella'r broses ymhellach yn barod ar gyfer hunanasesiad 2023/24.

Byddai hunanasesiad y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023/24 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024. Roedd yr amserlen hon yn cyd-fynd â'r trefniadau rheoli perfformiad presennol a byddai’n galluogi dwyn ynghyd fewnwelediadau allweddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a llywodraethu drwy gydol y flwyddyn mewn dyfarniad cryno ar ba mor dda yr oedd y Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad y Ddeddf LlE.

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am raglen dreigl o waith ar y cyd ag Aelodau drwy gydol Calendr Perfformiad Blynyddol 2024/25 i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu hymwneud â’r gwaith o lunio a mireinio'r cynlluniau, yr adroddiadau a’r prosesau allweddol a fyddai'n eu cefnogi yn eu rôl allweddol o asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Lles, yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwella lles ei ddinasyddion.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn fod angen i Brosiect Sero fod wrth wraidd y Cynllun Corfforaethol newydd gan mai dim ond pum mlynedd i fwrdd oedd y dyddiad targed allweddol sef 2030. Yn ogystal, roedd angen i’r Cynllun Corfforaethol gynnwys targedau penodol y gellid eu hasesu'n hawdd fel llwyddiant neu fethiant. Yn olaf, gofynnodd y Cynghorydd Goodjohn a allai fod mwy o ymgysylltu â Chynghorwyr ynghylch datblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai Prosiect Sero yn un o'r materion strategol allweddol a fyddai'n cael eu cysylltu drwy gydol y Cynllun Corfforaethol newydd ag elfennau eraill. O ran gosod targedau byddai trafodaethau ynghylch canlyniadau, ac roedd yn bwysig i'r Cyngor ystyried beth ddylai'r canlyniadau fod a sut y byddai'r rheiny’n cael eu cyflawni. Byddai ymgysylltu ag Aelodau Etholedig yn cael ei gynnal yn rheolaidd a byddai digwyddiadau ymgysylltu’n cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid allweddol y Cyngor.

Dywedodd Mr G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg) y gallai Cynllun Corfforaethol tymor byrrach dros gyfnod o un neu ddau o flynyddoedd fod yn well o ystyried y ffaith na fyddai'r Cyngor yn gwybod ei sefyllfa ariannol dros bum mlynedd. Felly, dylai targedau ac amcanion y Cyngor adlewyrchu sefyllfa gyllidebol y Cyngor ar y sail bod y cyllidebau’n cael eu gosod o flwyddyn i flwyddyn. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod y syniad o ddatblygu Cynllun pum mlynedd ar y cyd â Chynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ac ystyriwyd bod y broses o amgylch hynny’n gadarn. Fodd bynnag, gallai fod lle i ailystyried sut roedd Cynlluniau Gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac a fyddai pum Cynllun Cyfarwyddiaeth yn fwy priodol. Roedd trafodaethau ac ystyriaeth bellach o ran y mecanweithiau ynghylch adrodd ar y gwaith o gyflawni canlyniadau a chamau gweithredu yn parhau. Eglurodd y Cyfarwyddwr y byddai aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu hymgynghori fel rhan o'r ymgynghoriad 8 wythnos.

Dywedodd y Cynghorydd Goodjohn fod angen i'r Cynllun Corfforaethol newydd ystyried Cofrestr Risgiau'r Cyngor, a dywedodd fod Cynllun pum mlynedd yn opsiwn gwell fel yr oedd meddwl yn yr hirdymor.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper fod yr angen i gyflawni sero net wedi'i osod ar gyfer 2030 a'i fod am i'r Cynllun Corfforaethol fod yn fwy ystwyth ac yn llai cyfarwyddol gan alluogi'r Cyngor i fod yn barod i newid ac yn barod i dderbyn unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr fod diffinio gwydnwch yn erbyn ystwythder yn ddiddorol iawn, ac mai un o'r cynigion presennol oedd cael cynllun corfforaethol llai a symlach gan ganolbwyntio ar set lai o flaenoriaethau. Byddai dull o'r fath hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD - BOD safbwyntiau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael eu cyfeirio at y Cabinet. Dyma'r safbwyntiau:

- I rôl Craffu gael ei hamlygu o ran datblygu Cynllun Corfforaethol newydd, yn enwedig y trefniadau ar gyfer asesu perfformiad yn erbyn y Cynllun.
- I Brosiect Sero fod yn rhan ganolog o'r Cynllun Corfforaethol newydd.
- Yr angen i gael targedau penodol y gellid eu hasesu'n hawdd fel llwyddiant neu fethiant.
- Bod gweithgaredd ymgysylltu gydag Aelodau Etholedig yn cael ei gynnal o ran datblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd.
- I'r targedau a'r amcanion adlewyrchu sefyllfa gyllidebol y Cyngor a'r ffaith bod cyllidebau'r Cyngor yn cael eu gosod o flwyddyn i flwyddyn.
- I risgiau corfforaethol y Cyngor gael eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd.
- Gan nad oedd targedau sero net 2030 yn bell iawn i ffwrdd, roedd angen i'r Cynllun Corfforaethol fod yn ddigon ystwyth fel ei fod yn cynnig hyblygrwydd i'r Cyngor a heb fod yn rhy gyfarwyddol o ran sut i gyflawni amcanion.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Hysbysu'r Cabinet am safbwyntiau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

130 DIWEDDARIAD CH4: AMSERLEN RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU 2023/24 – CYNGOR BRO MORGANNWG (CAC) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'r Aelodau ddiweddariad Chwarter 4 (Ch4) o amserlen rhaglen waith Archwilio Cymru fel sy'n cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24. Ar gyfer hyn, croesawodd y Pwyllgor S.J. Byrne o Archwilio Cymru.

Amlinellodd Atodiad A yr adroddiad gynnydd Ch4 ar raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru fel sy'n cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor adolygu a nodi'r cynnydd a wnaed ar Raglen Waith Archwilio Bro Morgannwg hyd at Ch4 a chyfeirio'r adroddiad i'r Cabinet i'w arolygu.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Goodjohn pryd y byddai'r gwaith digartrefedd yn dechrau. Mewn ymateb, dywedodd S.J. Byrne (Archwilio Cymru) fod y darn hwnnw o waith yn dal i gael ei gwmpasu, ac y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei hanfon at yr Aelodau y tu allan i gyfarfod y Pwyllgor. Yn ogystal, cytunodd Archwilio Cymru i wirio'r sefyllfa o ran Datganiad Cyfrifon Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd ar gyfer 2022/23.

Byddai Archwilio Cymru hefyd yn egluro'r diffiniad o beth oedd yr Uwch Wasanaeth Cyhoeddus fel yr amlinellwyd gyda'r adroddiad cenedlaethol ar dudalen 14.
O ran yr astudiaeth a gynhaliwyd o'r llywodraethu yn yr Awdurdodau Tân ac Achub, byddai eglurhad ynghylch ymgysylltu â Chynghorau yn cael ei roi.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet iddo fwrw golwg drosto.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn galluogi'r Cabinet i fwrw golwg dros y rhaglen Archwilio.

131 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2023/24 (PGAMR) –

Rhoddodd yr adroddiad Farn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Gwnaeth hefyd roi gwybod i'r Pwyllgor am waith a pherfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24. Rhoddwyd y wybodaeth hon i gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Yn Atodiad A yr adroddiad roedd Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2023-24 a oedd yn manylu ar berfformiad, barn ac argymhellion Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a gynorthwyodd i ffurfio Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor.

O'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 ac o ystyried ffynonellau sicrwydd eraill, barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2023-24 oedd Sicrwydd Rhesymol.

Roedd yr archwiliadau hynny a roddodd farn archwilio yn ystod y flwyddyn wedi'u rhestru yn Atodiad 1 yr adroddiad, roedd y sefyllfa fanwl yn erbyn y cynllun archwilio yn Atodiad 2, Atodiad 3 oedd y datganiad sefyllfa monitro argymhellion ac Atodiad 4 oedd yr holiadur a gyhoeddwyd ar ôl cwblhau pob archwiliad.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Goodjohn am fwy o wybodaeth ar gyfer y farn sicrwydd rhesymol gyffredinol. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y farn gyffredinol yn seiliedig ar yr archwiliadau unigol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd yn bwysig cydnabod na allai'r Tîm Archwilio roi sylw i'r holl wasanaethau a systemau gan fod cyfyngiadau ar adnoddau. Roedd y farn gyffredinol yn seiliedig ar nifer yr archwiliadau sylweddol a rhesymol yn ogystal â nifer y barnau cyfyngedig a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, byddai'r farn gyffredinol yn ystyried Cofrestr Risgiau a gwaith rheoli risgiau'r Cyngor a oedd yn rhannau allweddol o broses gynllunio'r archwiliad.

Dywedodd Mr N. Ireland (Aelod Lleyg) fod y gyfradd boddhad cleientiaid o 46% yn rhywbeth y gellid ei wella. O'r 12 cwestiwn, roedd yn ymddangos bod 10 yn rhai ie a na syml ac ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol byddai'n ddefnyddiol dangos canlyniadau pob cwestiwn. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod cyfle i wneud sylwadau o fewn yr arolwg ynghylch digonolrwydd archwiliadau ac y byddai ymgorffori ystod o atebion yn cael ei ystyried wrth symud ymlaen. Yn ogystal, byddai cynnwys graffiau ar gyfer pob cwestiwn hefyd yn cael ei ystyried. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'r gyfradd ddychwelyd o 46% yn cael ei hadrodd i Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor fel y byddai pob Cyfarwyddwr yn ymwybodol.

Cyfeiriodd Mr Ireland at y 10 archwiliad sicrwydd cyfyngedig a oedd yn yr adroddiad, a gofynnodd am sicrwydd o ran pa gamau gweithredu a gymerwyd o ran y meysydd hynny. Dywedodd Mr. G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg) y byddai'n briodol i'r Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol gyflwyno adroddiad diweddaru yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r meysydd canlynol gydag archwiliad sicrwydd cyfyngedig:

- Safonau diogelwch data - diwydiannau cardiau talu (SDD DCT)
- Gwasanaethau dirprwyon a phenodedigion
- Llyfrgelloedd ac offer digidol
- Cod Ymddygiad Swyddogion
- Lleoliadau Oedolion (bywydau a rennir)
- Diogelu Corfforaethol – Llywodraethu, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai Tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor gael gwybod am yr adrannau / gwasanaethau hynny nad oeddent wedi ymateb i holiadur boddhad cleientiaid y Gwasanaethau Archwilio Mewnol.

Cytunodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol i wirio statws 8 adroddiad dilynol o 2022/23. Eglurodd hefyd, o ran themâu cyffredinol, fod y

rheiny'n cael eu hadrodd i'r Cyfarwyddwyr drwy Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol Blwyddyn Ariannol 2023/24 gan gynnwys Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor yn cael ei nodi.

(2) BOD y Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol yn cyflwyno adroddiad diweddaru yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Safonau diogelwch data - diwydiannau cardiau talu (SDD DCT)
- Gwasanaethau dirprwyon a phenodedigion
- Llyfrgelloedd ac offer digidol
- Cod Ymddygiad Swyddogion
- Lleoliadau Oedolion (bywydau a rennir)
- Diogelu Corfforaethol – Llywodraethu, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

(3) BOD Tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor yn cael gwybod am yr adrannau / gwasanaethau hynny nad oeddent wedi ymateb i holiadur boddhad cleientiaid y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

<u>Y rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1-3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

132 SIARTER GWASANARTHAU A RENNIR ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL 2024-25(PGAMR) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (GAMRh) ar gyfer 2024-25 i'r Aelodau.

Sefydlodd Siarter y GAMRh sefyllfa gweithgarwch archwilio mewnol ym mhob Cyngor ynghyd â llinellau adrodd. Roedd yn ddogfen ffurfiol a oedd yn diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb gweithgareddau archwilio mewnol.

Y Pennaeth Archwilio Mewnol oedd yn gyfrifol am adolygu'r Siarter a'i chyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pob Cyngor yn flynyddol i'w hadolygu a'i chymeradwyo yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Un o'r rolau allweddol a ddangosodd oruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.

Adolygwyd Siarter y GAMRh ar gyfer 2024-25 i sicrhau ei bod yn parhau i adlewyrchu gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'i bod yn parhau'n berthnasol i'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â'r GAMRh.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD - BOD Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol ar gyfer 2024-25, sydd yn Atodiad A yr adroddiad, yn cael ei nodi a'i chymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

133 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN SEILIEDIG AR RISG 2024/25(PGAMR) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r Cynllun ar Sail Risg a'r Strategaeth Archwilio Fewnol Flynyddol ar gyfer 2024-25 i'r Aelodau i'w cymeradwyo.

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol sefydlu cynlluniau ar sail risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio mewnol, yn gyson â nodau'r sefydliad. Roedd y Cynllun Archwilio ar Sail Risg yn cynnwys amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor gan gynnwys risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Roedd ystyried Strategaeth Archwilio a Chynllun ar Sail Risg Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y Strategaeth Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer 2024-25 wedi'i hatodi yn Atodiad A yr adroddiad ac roedd y Cynllun ar Sail Risg Blynyddol ar gyfer 2024-25 wedi'i atodi yn Atodiad B yr adroddiad.

Dangosodd y Strategaeth sut y byddai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Byddai'r Strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yr Uwch Dîm Arwain, Archwilwyr Allanol ac Uwch Reolwyr.

Rhoddodd y Cynllun drosolwg i'r Pwyllgor o'r gwaith i'w wneud a fyddai'n cynnig digon o sylw i allu rhoi barn ar ddiwedd 2024-25.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper sut y byddai'r Strategaeth a'r Cynllun yn ymdopi pe bai partner arall yn ymuno â'r Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol. Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod elfen wrth gefn wedi'i hymgorffori yn y Cynllun.

O ran blaenoriaethu archwiliadau, roedd y Pwyllgor yn cytuno y dylai Tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor ystyried pa adolygiadau archwilio y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer 2024/25. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor am i fwy o

wybodaeth gryno ynghylch sicrwydd cyfyngedig gael ei chynnwys lle bo hynny'n briodol.

PENDERFYNWYD – BOD y Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft (sydd yn Atodiad A yr adroddiad) a'r Cynllun Archwilio ar Sail Risg drafft ar gyfer 2024/25 (sydd yn Atodiad B yr adroddiad), yn cael eu nodi a'u cymeradwyo, yn amodol ar gynnwys gwybodaeth gryno bellach yn ymwneud ag adroddiadau sicrwydd cyfyngedig, a bod Tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor yn ystyried pa archwiliadau yr oedd angen eu blaenoriaethu ar gyfer 2024/25.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

134 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU(PGAMR) –

Cyflwynwyd yr adroddiad a diben yr adroddiad oedd rhoi Blaenraglen Waith (BW) 2024/25 i'r Aelodau.

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd yn derbyn adroddiadau a chyflwyniadau gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynwyd BW ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen. Roedd y BW wedi'i diweddaru ar gyfer 2024/25 yn Atodiad A yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r BW wedi'i diweddaru neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gofynnodd y Pwyllgor am i gyfrifon Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd gael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Pwyllgor cyn gynted ag yr oeddent ar gael. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor am i adroddiadau diweddaru gael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar 18 Gorffennaf 2024 ynghylch yr archwiliadau sicrwydd cyfyngedig fel y cyfeiriwyd atynt dan Eitem Agenda Rhif 7 – Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2023/24.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi.

(2) BOD atodlen yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 18 Gorffennaf 2024 yn cael ei chymeradwyo yn amodol ar gynnwys adroddiad diweddaru gan y Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth i'r Adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig fel y cyfeiriwyd atynt dan Eitem 7 ar yr Agenda – Adroddiad Archwilio Mewnol

Blynyddol 2023/24 a bod Cyfrifon Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn gynted ag y byddant ar gael.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.